Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Briff i'r Ymgeisydd a Disgrifiad o'r Swydd

Cyfarwyddwr Cyffredinol, Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru

Dyddiad Cau: **30 Mai 2023**




hyderus o ran anabledd ARWEINYDD

disability confident LEADER

Stonewall CYMRU DIVERSITY CHAMPIONS HYRWYDDWYR AMRYWIAETH

Stonewall 100 CYFLOGWR GORAU TOP 100 EMPLOYERS CYMRU 2020

BUSINESS IN THE COMMUNITY Hyrwyddwr Busnes Cyfrifol Cymru 2020

BUSINESS IN THE COMMUNITY Responsible Business Champion Cymru 2020

Civil Service Commissioners

# Cynnwys

1. Neges gan Andrew Goodall, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

2. Cefndir Llywodraeth Cymru

3. Rôl y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg

4. Cyfrifoldebau Allweddol

5. Manyleb y Person

6. Sut i Wneud Cais

7. Y Broses Ddethol

8. Bywgraffiadau

9. Y Telerau Penodi

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47350, ISBN digidol 978-1-80535-866-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# 1. Croeso




**Neges gan Andrew Goodall, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru.**

**Dyma gyfle gwych: cyfle i ymuno â phrif dîm arwain Llywodraeth Cymru fel Cyfarwyddwr Cyffredinol, Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg, a hynny ar adeg o her na welwyd ei thebyg o'r blaen.**

Nid yw ein hagenda erioed wedi bod yn bwysicach ac mae'r sefyllfa o ran yr hyn y mae angen inni ei wneud a phwy y mae angen inni wrando arnynt wedi newid. Ein nod yw cefnogi'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru i adeiladu Cymru decach, fwy cyfartal a gwyrddach mewn cyd-destun sydd hefyd wedi newid yn ddramatig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn genedlaethol, yn y DU ac yn rhyngwladol. Byddwn yn cynnal y ffocws hwnnw wrth inni ymrafael â heriau enfawr adferiad economaidd a chymdeithasol ein gwlad o'r pandemig byd-eang, gan gynnwys ymateb i'r argyfwng costau byw ac effaith y rhyfel yn Wcráin. Rydym hefyd yn gweithio i gael y canlyniadau gorau posibl i Gymru y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ac i ddatblygu ein ffyrdd ein hunain o gyflawni'r hyn yr oeddem yn arfer ei wneud mewn partneriaeth â'r UE. Mae'r weinyddiaeth bresennol ar waith ers 18 mis ac mae gan ein Llywodraeth raglen uchelgeisiol o flaenoriaethau i'w cyflawni.

Bydd ein Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg yn ymuno â ni ar adeg gyffrous, gan helpu i lunio ffocws ein huwch-dîm ac arwain y sefydliad drwy drydydd degawd datganoli. Bydd y tîm cyfan yn allweddol yn y gwaith o sicrhau bod gan wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru yr adnoddau i gefnogi ein Prif Weinidog a'r Cabinet ar hyn o bryd ac yn ystod y blynyddoedd anodd sydd i ddod.

Deiliad y swydd hon fydd prif gynghorydd polisi'r portffolio a bydd yn arwain Grŵp sy'n dwyn ynghyd bob agwedd ar addysg, sgiliau a dysgu gydol oes a'n rôl arweiniol ar gyfer llywodraeth leol ac argyfyngau sifil posibl, ochr yn ochr â'n gwaith o helpu i greu cymunedau a gweithleoedd tecach sy'n fwy diogel ac yn fwy cyfartal. Yn sail i waith y Grŵp mae'r strategaeth "Cymraeg 2050" a'n nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Mae'r byd addysg yng Nghymru yn newid. Mae gennym genhadaeth genedlaethol ar gyfer gwella sy'n seiliedig ar arferion da rhyngwladol ac ymwneud ag arbenigwyr ac ymarferwyr blaenllaw ar bob lefel. Eich rôl fydd darparu arweinyddiaeth strategol a gweithredol i sicrhau cyflawni, mewn amgylchedd cyflym sy'n newid yn barhaus. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'n rhaglen ddiwygio ac o amcanion y Llywodraeth gyfan o greu cymunedau gwydn a hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd. Bydd gennych ymlyniad wrth Gymru, y Gymraeg a'n diwylliant, gwerthfawrogiad dwfn o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu a dealltwriaeth o'u hanghenion a'u dyheadau. Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol i ymateb i'r heriau cyffredin sy'n ein hwynebu fel eu bod yn darparu'r ystod briodol o wasanaethau effeithiol er budd

eu cymunedau. Bydd gan yr unigolyn rôl arweiniol genedlaethol o bwys hefyd ar gyfer y gwasanaethau brys a sefydliadau eraill, o ran cynllunio a rheoli ymateb Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus i argyfyngau. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn chwarae rhan allweddol mewn cyfnod o her a newid mawr. Bydd yn rhoi cefnogaeth effeithiol i Weinidogion, yn cydgysylltu datblygiadau polisi, yn galluogi cydweithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus ac yn sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu i boblogaeth Cymru.

I fod yn effeithiol yn y rôl hon bydd gennych brofiad helaeth o gyflawni newid ar raddfa fawr i systemau a byddwch yn gallu sicrhau bod camau sy'n gwella canlyniadau ac ansawdd profiad defnyddwyr yn cael eu cydblethu â rhai sy'n gwella effeithlonrwydd, cynhyrchiant a pherfformiad. Byddwch hefyd yn gallu ymateb yn gyflym, yn effeithiol ac yn gydymdeimladol pan ddaw'r heriau. Rydym yn chwilio am unigolyn eithriadol sydd â hanes o arwain, llwyddo, gwytnwch a chyflawni ar lefel uwch, gyda phrofiad o newid mewn diwylliannau a systemau, sicrhau gwerth am arian a throsi gweledigaeth strategol a heriau yn amcanion a chyflawni clir.

Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i bobl Cymru drwy'r Senedd. Ein nod yw cyrraedd safonau uchel o ran bod yn dryloyw ac yn agored; a dangos gonestrwydd, gwrthrychedd, uniondeb a didueddrwydd ym mhopeth a wnawn. Creadigrwydd, tegwch, partneriaeth a phroffesiynoldeb yw ein gwerthoedd craidd, ac mae'r rheini'n ein tywys yn ein penderfyniadau ac yn ein rhyngweithio â'n gilydd, gan ddarparu set glir o ddisgwyliadau i yrru'r canlyniadau yr ydym am eu gweld. Ein nod hefyd yw creu amgylchedd gwaith sy'n arloesol, yn ysgogol, yn gefnogol ac yn gynrychioliadol o'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae argyfwng y pandemig wedi cryfhau ein hymrwymiad i ffyrdd newydd o weithio, a dylech allu arwain drwy esiampl wrth fabwysiadu arferion gweithio hyblyg sy'n addas i fyd ar ôl COVID-19.

Rydym yn gweithio'n galed i greu amgylchedd cefnogol a chynhwysol i'n holl staff allu datblygu a pherfformio hyd eithaf eu gallu. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan fenywod, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a phobl anabl, sydd oll heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn yr Uwch Wasanaeth Sifil. Rydym wedi ymrwymo i helpu ein holl gydweithwyr i ffynnu mewn amgylchedd gweithio cynhwysol.

Os ydych chi'n arweinydd effeithiol a gwydn sy'n gallu tywys pobl gyda chi i gyflawni newid cadarnhaol a chynaliadwy, rwy'n edrych ymlaen at weld eich cais.

**Cliciwch yma i weld neges fideo**.

# 2. Cefndir Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yng nghanol rhwydwaith gwasanaethau cyhoeddus Cymru ac mae ganddi gyllideb flynyddol o tua £18 biliwn. Mae'n gyfrifol am ystod o feysydd gan gynnwys iechyd, addysg a sgiliau, yr economi a thrafnidiaeth, ac amaeth a'r amgylchedd.

Prif Weinidog Cymru a'i Gabinet sy'n ffurfio Llywodraeth Cymru ac sy'n gwneud penderfyniadau mewn meysydd o gyfrifoldeb datganoledig. Mae Gweinidogion Cymru yn atebol i Senedd Cymru, sef corff deddfu Cymru sy'n cynnwys 60 o Aelodau etholedig. Mae gweithlu o ryw 5,000 o weision sifil yn cefnogi Gweinidogion Cymru, gydag oddeutu hanner y rhain yn gweithio yng Nghaerdydd a'r gweddill yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled y wlad. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddfeydd bach yn Llundain a Brwsel hefyd a rhwydwaith tramor ar gyfer gwaith masnach a buddsoddi. Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n arwain Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ac mae'n atebol i'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru.

Mae pawb sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru wedi'u huno gan un nod cyffredin, sef cynorthwyo'r Gweinidogion i greu Cymru well. Mae ein gwerthoedd craidd: creadigrwydd, tegwch, partneriaeth a phroffesiynoldeb yn ein cynnal wrth inni ryngweithio â'n gilydd ac yn ein helpu i farnu a phenderfynu. Drwy ein fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau, mae gennym gyfres glir o ddisgwyliadau i sbarduno'r canlyniadau yr ydym am eu gweld.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn werthoedd craidd gan Lywodraeth Cymru. Ein nod yw bod yn gyflogwr sy'n dangos esiampl, ac wrth wraidd ein gwaith y mae Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar y Bwrdd, rhwydweithiau amrywiaeth bywiog a gefnogir gan hyrwyddwyr ar lefel uchel, targedau amrywiaeth a osodir i wella nifer y grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (er enghraifft, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a phobl anabl ar bob lefel a menywod ar lefelau uwch). Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio'r model cymdeithasol o anabledd yn y sefydliad ac i wneud addasiadau recriwtio ac addasiadau yn y gweithle i sicrhau cydraddoldeb i'n cydweithwyr anabl. Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021 – 2026 yn datgan ein bwriad o fod yn sefydliad sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn llawn ar bob lefel, sefydliad sy'n wrth-hiliol ac sy'n gwrthwynebu gwahaniaethu o bob math. Mae ein Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol yn nodi ein hymrwymiad i greu Cymru wrth-hiliol, y gallwn i gyd fod yn falch o berthyn iddi ac y gallwn ffynnu ynddi.

Mae ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a'r negodiadau rhyngwladol dilynol – ar ddyfodol perthynas y DU â'r UE ac ar gytundebau masnach y DU gyda gwledydd eraill – wedi arwain at oblygiadau sylweddol i Gymru ac i waith Llywodraeth Cymru. Mae ein perthynas gyfansoddiadol â Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill yn parhau i ddatblygu.

Yn ogystal, yn yr un modd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Safonau'r Gymraeg, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth Sifil weithio mewn ffyrdd newydd a gwahanol i wella gwaith datblygu polisi a'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gorff dwyieithog; caiff deddfwriaeth ei chreu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae gan y ddwy iaith statws cyfreithiol cyfartal.

O ystyried y bydd deilad y swydd hon yn gyfrifol am arwain ar y Gymraeg, rhaid i ymgeiswyr ddangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd, rhannu ein hymrwymiad i hybu'r Gymraeg er mwyn sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a bod ag ymlyniad cryf wrth Gymru a'n diwylliant. Rydym yn annog ac yn cefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

I gael rhagor o wybodaeth am Lywodraeth Cymru gweler **www.llyw.cymru**

# 3. Rôl y Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg

Yn ei rôl, bydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gyfrifol am arwain mwy na 1,000 o aelodau o staff, gyda chwe Chyfarwyddiaeth barhaol a dwy Gyfarwyddiaeth dros dro.

Mae'r Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg yn dwyn ynghyd bob agwedd ar addysg, sgiliau a dysgu gydol oes ochr yn ochr â'n gwaith i helpu i greu cymunedau a gweithleoedd tecach sy'n fwy diogel ac yn fwy cyfartal. Yn sail i waith y Grŵp mae'r strategaeth "Cymraeg 2050" a'n nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, gan gefnogi diwylliant Cymru a datblygu ei phroffil. Y Grŵp sy'n gyfrifol am arwain ein perthynas â llywodraeth leol. Mae hynny'n cynnwys darparu'r setliad ariannol blynyddol a llunio trethiant lleol i wella cadernid ariannol yr awdurdodau fel y gallant ddarparu'r ystod briodol o wasanaethau effeithiol. Mae'r Grŵp hefyd yn gyfrifol am arwain y gwaith o gynllunio a rheoli ymateb Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus i argyfyngau a goruchwylio risg, cadernid a diogelwch cymunedol.

Mae'r Grŵp yn gyfrifol am nifer sylweddol o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu er mwyn gwneud Cymru'n fwy llewyrchus, yn fwy cyfartal ac yn wyrddach. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb drwy weithredu ein Cwricwlwm blaenllaw i Gymru, gosod dull newydd o ymdrin â darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a chryfhau cymorth dysgu proffesiynol ar gyfer pob addysgwr.
- Cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ym mhob lleoliad addysg a gofal plant.
- Llywio gwaith i warchod a thyfu'r Gymraeg a'n diwylliant.
- Datblygu sgiliau a chyflogadwyedd i wella canlyniadau'r farchnad lafur i bobl anabl, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, menywod, pobl ifanc, gweithwyr hŷn dros 50 oed, gofalwyr, a'r rhai a chanddynt sgiliau lefel isel.
- Sefydlu mai drwy bartneriaeth gymdeithasol yr ydym yn ymdrin â busnes, a chefnogi hyn drwy gael sail statudol i bartneriaeth gymdeithasol drwy Fil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).
- Arwain camau gweithredu i helpu pobl i fyw mewn cymunedau mwy diogel a chydlynus, mynd i'r afael â thlodi plant ac ysgogi camau trawsbynciol i hyrwyddo ffyniant.
- Arwain ar hawliau dynol, anghydraddoldeb a chynhwysiant.
- Diwygio etholiadau lleol a gwneud y dreth gyngor yn decach.

Mae'r Grŵp yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer nifer o raglenni sy'n cael eu cynnal ar draws Llywodraeth Cymru, er enghraifft, yr ymateb dyngarol i'r gwrthdaro yn Wcráin, yr ymateb i'r argyfwng costau byw a'r gwaith o gynllunio ar gyfer risgiau a pharodrwydd.

# 4. Y Prif Gyfrifoldebau

**Mae prif gyfrifoldebau'r rôl hon yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:**

- Arwain y Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg, darparu naratif a diben a rennir ar gyfer y Grŵp ac annog arweinyddiaeth gydweithredol sy'n ysgogi diwylliant gwaith uchel ei berfformiad, gan dorri drwy seilos a ffiniau sefydliadol.
- Galluogi gweithrediad effeithlon y Grŵp drwy sicrhau cefnogaeth effeithiol i Weinidog pob portffolio o ran cyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.
- Sicrhau arferion rheoli cadarn mewn perthynas â darparu adnoddau, cyllid a llywodraethiant i'r Grŵp, gan gynnwys mynd i'r afael â blaenoriaethau o ran darparu adnoddau, gweithredu ar ganlyniadau'r arolwg staff ac ymateb i ganfyddiadau archwiliadau.
- Gweithio gyda Chyfarwyddwyr i gytuno ar gynlluniau unigol a rhai ar lefel cyfarwyddiaeth i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, gan oruchwylio cynnydd holl ymrwymiadau'r Grŵp a gweithredu pan fo angen.
- Meithrin perthynas a rhwydweithiau effeithiol yn gyflym gyda'r Gweinidogion a chydweithwyr ar lefel uwch ar draws Grwpiau sydd â sawl llinell atebolrwydd; cyfathrebu'n effeithiol â'r Gweinidogion, mewn cyd-destun o atebolrwydd a thryloywder sylweddol.
- Arwain, ysgogi a symbylu gwaith Llywodraeth Cymru o ddatblygu polisïau sy'n cefnogi'r Gymraeg, mewn addysg a gwasanaethau cyhoeddus eraill; ac (yn fwy penodol) arwain gwaith ar ein nod yn "Cymraeg 2050" o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a gwneud yr iaith yn fwy gweladwy.
- Ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid mewn sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sector preifat, y mudiad undebau llafur ac adrannau eraill o Lywodraeth y DU i ddatblygu diben cyffredin ac agenda a rennir ar gyfer newid.
- Sicrhau bod y Grŵp yn gallu cyflwyno cyngor o'r safon uchaf i'r Gweinidogion, yn wrthrychol ac ar sail digon o dystiolaeth, i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion a dyheadau'r Rhaglen Lywodraethu a'r Gweinidogion.
- Arwain ar bolisi a chyflawni ar gyfer Gweinidogion ar draws ystod o feysydd gan gynnwys:
  - Codi cyrhaeddiad dysgwyr difreintiedig a mynd i'r afael â'r bwlch o ran dyheadau; gosod llesiant y dysgwr wrth wraidd ein diwygiadau, gan gryfhau cynnig dysgu gydol oes Cymru i bob dinesydd a dod yn genedl ail gyfle.
  - Bwrw ymlaen â'r diwygiadau sylweddol sydd eisoes ar y gweill, gan gynnwys y Cwricwlwm i Gymru, diwygio a gweithredu Anghenion Dysgu Ychwanegol, Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol a materion hirsefydlog lle mae COVID-19 wedi gohirio gweithredu.

- Cefnogi ein nodau ar gyfer "Cymraeg 2050" i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd bob dydd o'r Gymraeg drwy sicrhau mynediad cyfartal at addysg cyfrwng Cymraeg a rhoi cyfle i bob person gyrraedd pa bynnag lefel o gymhwysedd y maent yn anelu ati.
- Gweithredu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar gyfer addysg a sgiliau ôl-16, ac arwain ar bolisi, strategaeth, darpariaeth a chyllid ar gyfer pob llwybr addysg bellach ac addysg uwch, hyfforddiant ac addysg oedolion, gan gynnwys cefnogi'r gwaith o ddarparu prentisiaethau perthnasol.
- Yn unol â Chynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru, adolygu a diwygio rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau wedi i gyllid Ewropeaidd ddod i ben, er mwyn cyd-fynd â nodau ac amcanion y Gweinidogion.
- Arwain camau gweithredu i helpu pobl i fyw mewn cymunedau mwy diogel a chydlynus, gan ganolbwyntio ar ddiogelu a chefnogi pobl agored i niwed, gan gynnwys arwain gwaith ar wrthgaethwasiaeth, cam-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol.
- Arwain y gwaith o feithrin cydnerthedd ac o gynllunio ar gyfer risgiau ac argyfyngau sifil posibl yng Nghymru, gan weithio o fewn y Llywodraeth a chyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus i ddatblygu dulliau effeithiol a chydgysylltiedig o ran paratoi ac ymateb mewn argyfwng.
- Hyrwyddo camau gweithredu i greu Cymru wrth-hiliol a chefnogi gweithredu trawslywodraeth er mwyn gwella canlyniadau i bobl a chynyddu hawliau pobl anabl, pobl sy'n LHDTC+ a chymunedau sipsiwn a theithwyr.
- Llywio gwaith i wneud Cymru yn genedl gwaith teg; arwain ein dull partneriaeth gymdeithasol ac ymgorffori caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Gan adeiladu ar draddodiad o weithio mewn partneriaeth, rhoi deddfwriaeth wrth wraidd hynny fel bod sail statudol i strwythurau partneriaeth gymdeithasol, a darparu'r arweinyddiaeth i greu gwaith tecach.
- Darparu'r setliadau cyfalaf a refeniw blynyddol sy'n werth £5 biliwn ar gyfer llywodraeth leol a'r heddlu.
- Gweithio gyda llywodraeth leol i greu'r amodau ar gyfer cynrychiolaeth ddemocrataidd well a mwy amrywiol. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu gwasanaethau er mwyn ymateb i alw lleol yn y ffordd orau, gan ddwyn ynghyd wasanaethau o fewn ac ar draws cynghorau a sefydliadau eraill.
- Drwy Academi Wales, darparu rhaglenni hyfforddiant a datblygu a rhaglenni arweinyddiaeth ar draws y gwasanaethau cyhoeddus.

# 5. Manyleb y Person

Mae gan Lywodraeth Cymru ffordd neilltuol o ddarparu polisi a gwasanaethau cyhoeddus ar sail ein hethos gwasanaethau cyhoeddus 'Cymru'n Un' a'r nodau a'r ffyrdd o weithio yr ydym wedi ymrwymo iddynt drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Disgwylir i bob Cyfarwyddwr Cyffredinol fanteisio ar y ffordd hon o weithio sy'n canolbwyntio ar integreiddio, cydweithio a chyfranogiad, atal, a meddwl am y tymor hir. Rydym yn chwilio am rywun sy'n barod i lunio a dylanwadu ar yr agenda y tu hwnt i'w feysydd cyfrifoldeb rheoli llinell ei hun ac sy'n barod i achub ar y cyfleoedd sy'n codi wrth arwain y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol yng Nghymru.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n hyblyg ar draws y sefydliad i sicrhau bod ei feysydd cyfrifoldeb uniongyrchol yn cyfrannu at redeg y Llywodraeth gyfan yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd disgwyl ichi gyfleu diben a chyfeiriad, ac ysgogi darpariaeth yn y meysydd allweddol hyn. Bydd disgwyl ichi hefyd weithio mewn modd cyfannol, gan sicrhau bod eich timau yn deall y darlun ehangach y maent yn gweithredu ynddo.

Fel Pennaeth y Grŵp a Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, bydd deiliad y swydd yn annog ac yn galluogi cydymffurfiaeth â gwasanaethau, safonau a phrosesau cyffredin a symlach ar draws Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o wella ansawdd, effeithlonrwydd a thryloywder y gwaith a gynhyrchir gan Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru.

Fel aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd, mae gan bob Cyfarwyddwr Cyffredinol nifer o rolau corfforaethol gan gynnwys noddi un o Rwydweithiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth staff Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i hyrwyddo a chefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob rhan o'r sefydliad. Byddwch yn gosod esiampl dda ym mhopeth a wnewch, gan sicrhau bod eich arweinyddiaeth yn gyson â'n gwerthoedd, sef creadigrwydd, tegwch, partneriaeth a phroffesiynoldeb. Byddwch hefyd yn bodloni egwyddorion ehangach y Gwasanaeth Sifil, sef uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd. Byddwch yn gallu ystyried eich profiadau bywyd eich hun a dysgu ohonynt, gan ddefnyddio'r profiad hwn o weithio'n effeithiol ac o arwain tîm yn llwyddiannus yn ystod cyfnodau o bwysau, craffu ac amwysedd parhaus.

Un o gyfrifoldebau'r swydd Cyfarwyddwr Cyffredinol hon yw hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn allanol a bydd deiliad y swydd yn chwarae rôl arweiniol bwysig yn fewnol o ran annog cyrhaeddiad yn y Gymraeg o fewn y sefydliad, cefnogi gweithio dwyieithog ac ymddwyn mewn modd sy'n dangos esiampl o ran hyrwyddo'r Gymraeg.

## Am beth yr ydym yn chwilio?

Mae gan y Gwasanaeth Sifil gyfres ddiffiniedig o ymddygiadau sy'n rhan o'n dull o ddefnyddio **Proffiliau Llwyddiant**, i helpu i lunio prosesau dethol ar y radd hon. Y rhai sydd fwyaf perthnasol i'r rôl hon yw *Arweinyddiaeth, Cyfathrebu a Dylanwadu, Gweithio ar y Cyd, Gwneud Penderfyniadau Effeithiol, a Gweld y Darlun Cyflawn.*

Mae rhagor o wybodaeth am ymddygiadau'r Gwasanaeth Sifil ar gael yn y ddogfen lawn yma **Proffiliau Llwyddiant – Ymddygiadau Gwasanaeth Sifil (publishing.service.gov.uk)**

Byddwn yn awyddus i drafod mwy ar yr ymddygiadau hynny yng nghyfweliadau'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer, gan drafod

sut yr ydych chi'n ymgorffori ein gwerthoedd o greadigrwydd, tegwch, partneriaeth a phroffesiynoldeb. Er hynny, y prif themâu yr ydym yn chwilio amdanynt yw:

- Arweinyddiaeth bersonol gyda hygrededd yn syth – dull personol a phroffesiynol o arwain sy'n meithrin ymddiriedaeth, yn ysgogi ac yn grymuso staff, ac a fydd yn ennyn hyder ystod o randdeiliaid gan gynnwys Gweinidogion ac uwch-swyddogion.
- Sgiliau cyfathrebu a dylanwadu rhagorol, gyda hyder clir ynghylch rhannu negeseuon anodd, annisgwyl neu heriol â chydweithwyr ar y lefel uchaf yn Llywodraeth Cymru ac â rhanddeiliaid allanol. Mae'r rôl yn gofyn am y gallu i gysylltu â'r cymunedau y mae'r swydd hon yn eu gwasanaethu ac i ddatblygu dealltwriaeth o'u hanghenion a'u dyheadau gan sicrhau effaith gredadwy.
- Parodrwydd i gyfnewid arbenigedd, gwybodaeth ymarferol a sgiliau – gan wrando a gweithio'n gynhwysol i archwilio'n barhaus beth yw'r atebion gorau i'r Llywodraeth ac i'r sector cyhoeddus, gan weithredu'n effeithiol ar draws y system i ddod â thimau amlddisgyblaeth at ei gilydd.
- Y gallu i ymgysylltu'n llawn ag uwch-arweinwyr o bob rhan o'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau strategol. Mae'r rôl yn gofyn am y gallu a'r awydd i lunio rôl a diben yr Adran o ran cyflawni blaenoriaethau sydd er budd y genedl ac yn diwallu anghenion amrywiol yr holl randdeiliaid. Rhaid i hyn gynnwys defnyddio data a dealltwriaeth fel sail i bob strategaeth.
- Y gallu i roi cyngor diduedd a arweinir gan dystiolaeth i'r Gweinidogion ac i gydweithwyr eraill ar lefel uwch. Bydd y cyngor yn seiliedig ar ddadansoddiadau cadarn ac eang, gan droi amcanion strategol yn ymyriadau ymarferol sy'n gwella perfformiad, a sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â'r ymrwymiadau ehangach. Rhaid i'r gwaith hwn gynnwys ymwneud yn gynnar â'r rhanddeiliaid cywir a gweithio mewn partneriaeth â hwy wrth wneud argymhellion neu benderfyniadau.

## Profiad Perthnasol

Mae'r Gwasanaeth Sifil yn croesawu pobl ddawnus o unrhyw le yn y byd, ac o unrhyw gefndir gyrfa. Rydym yn ceisio adnabod sgiliau trosglwyddadwy o brofiad yr unigolyn. Er mwyn eich helpu i lwyddo yn y rôl hon, mae'n debygol y bydd gennych:

- Hanes blaenorol o gyflawni gweithredol llwyddiannus mewn sefydliad graddfa fawr, a hynny'n ddelfrydol gydag elfen glir o drawsnewid.
- Y gallu i lwyddo mewn amgylchedd o newid lle mae'r pwysau'n ddwys, gyda phrofiad o weithio o dan brosesau craffu uniongyrchol.
- Profiad y gellir ei ddangos o sefydlu timau uchel eu perfformiad sy'n cynnwys arweinwyr amrywiol o wahanol ddisgyblaethau, gan gyflawni drwy eraill drwy gydgordio a grymuso.
- Profiad o arwain ar lefel Tîm Gweithredol a Bwrdd mewn sefydliadau a rhwydweithiau mawr, gan weithio mewn partneriaeth ag uwch-randdeiliaid.

- Y gallu i gydbwyso gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd, a hynny ar draws tirwedd gymhleth.
- Ymrwymiad i arloesi, gan gynnwys dealltwriaeth o sut y gellir manteisio ar dechnoleg a digidoleiddio er budd sefydliadau a dinasyddion.

## Y Gymraeg

Yr ymgeisydd llwyddiannus fydd y swyddog uchaf â chyfrifoldeb am y polisi "Cymraeg 2050" ar draws Llywodraeth Cymru.
Bydd angen sgiliau Cymraeg ar gyfer y rôl hon, felly – a hynny o'r dechrau yn ddelfrydol. Fodd bynnag, mae ymgeiswyr ag ychydig o allu neu ddim gallu yn yr iaith yn gymwys i ymgeisio ac yn cael eu hannog i wneud hynny. Bydd ymgeisydd llwyddiannus ag ychydig o sgiliau neu ddim sgiliau yn cael ei asesu, a bydd disgwyl i'r unigolyn wneud ymrwymiad i ddatblygu ei sgiliau yn y Gymraeg hyd at lefel briodol. Bydd cymorth yn cael ei ddarparu i wneud hyn, a bydd hyfforddiant cynhwysfawr ar gael. Fel yn achos gofynion eraill, gellir trafod addasiadau rhesymol.

# 6. Sut i Wneud Cais

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd ceisiadau yn y naill iaith neu'r llall yn cael eu trin yn gyfartal.

Dylid gwneud cais drwy ddefnyddio system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru a dylid cyflwyno'r cais erbyn 23:55 30 Mai 2023 fan hwyraf. I wneud cais, gofynnir ichi gofrestru i gael cyfrif ar y system ymgeisio ar-lein gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost. Rydym yn argymell eich bod yn dewis cyfeiriad e-bost nad oes gan neb arall fynediad ato, gan mai dyma fydd ein prif ddull o gyfathrebu â chi am y broses ddethol.

Os oes gennych amhariad sy'n golygu na allwch wneud cais ar-lein, anfonwch neges e-bost i: **RecriwtioUWS@llyw.cymru** i ofyn am fformat arall, neu i ofyn am addasiad rhesymol sy'n gysylltiedig ag amhariad, er mwyn cyflwyno'ch cais.

## Recriwtio Dienw

Dylech ddileu eich enw o'ch CV a'ch datganiad personol pan fyddwch yn cyflwyno eich cais.

Fel rhan o'r broses recriwtio, bydd gofyn ichi ddarparu'r canlynol:

- Ffurflen gais wedi'i chwblhau;
- CV diweddar sy'n cynnwys manylion hanes eich gyrfa gan gynnwys cyfrifoldebau a chyflawniadau allweddol;
- Datganiad personol heb fod yn fwy na dwy ochr A4 yn esbonio sut y mae'ch cymwysterau, eich sgiliau, eich rhinweddau a'ch profiadau proffesiynol yn eich gwneud yn addas i'r swydd ac, yn benodol, sut yr ydych yn bodloni manyleb y person.

## Gwybodaeth am amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau gweithlu sy'n adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu, ar bob lefel, gan gynnwys y lefelau uchaf. Gofynnir ichi gadarnhau rhywfaint o wybodaeth am amrywiaeth ar eich ffurflen gais. Drwy gasglu'r wybodaeth hon, gallwn weld a ydym yn recriwtio o'r pwll ehangaf posibl o ddoniau, a sicrhau bod pob grŵp yn cael ei drin yn deg drwy gydol y broses. Ni fydd y ffurflen hon yn cael ei datgelu i unrhyw un sy'n asesu'ch cais. Os nad ydych am ateb cwestiwn penodol, dewiswch yr opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud'. Ni fydd modd ichi gyflwyno'ch cais os oes unrhyw un o'r cwestiynau ar ôl heb eu hateb.

## Cwestiynau a thrafodaeth anffurfiol

Os hoffech drafod y rôl hon ymhellach, anfonwch e-bost i **RecriwtioUWS@llyw.cymru**

## Problemau technegol ar-lein

Anfonwch e-bost i **RecriwtioUWS@llyw.cymru**

# 7. Y Broses Ddethol

## Golwg gyffredinol

Bydd y Tîm Recriwtio yn cydnabod eich cais drwy system Llywodraeth Cymru, a phan fo'n briodol byddwch yn cael gwybod am ganlyniad y cyfarfod llunio rhestr fer a gynhelir ar 8 Mehefin 2023.

## Asesiadau ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer yn unig

Bydd y gweithgareddau isod yn rhan o'r asesiad cyffredinol sydd ei angen ar gyfer yr ymarfer recriwtio hwn:

- **Prawf seicometrig ar-lein** – bydd hwn yn cynnwys prawf ar-lein a thrafodaeth â seicolegydd. Byddwch yn cael dolen at y prawf ar-lein o fewn 10 diwrnod i'r cyfarfod llunio rhestr fer.

  Os ydych chi wedi cwblhau'r profion seicometrig ar-lein yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ar gyfer swydd ar yr un radd, ni fydd angen ichi eu gwneud eto ar gyfer yr ymarfer recriwtio penodol hwn.
- **Ymarfer ymgysylltu â staff/ rhanddeiliaid** – cynhelir hwn yn ystod yr wythnos yn dechrau 19 Mehefin 2023. Rhagor o fanylion i ddilyn.
- **Sgwrs anffurfiol** – Bydd yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn cymryd rhan mewn sgwrs anffurfiol gyda Gweinidog. Mae'r rhain wedi'u trefnu ar gyfer wythnos yn dechrau 19 neu 26 Mehefin 2023. Rhagor o fanylion i ddilyn.
- **Cyfweliadau gan banel, a chyflwyniad** – mae'r rhain wedi'u trefnu ar gyfer 4 Gorffennaf 2023. Bydd y rhain hefyd yn cael eu cynnal yn rhithwir drwy Microsoft Teams. Bydd y cyfweliadau'n para tua 45 munud. Bydd y Panel yn cael adborth ar eich trafodaeth â'r seicolegydd ac ar yr ymarfer ymgysylltu â staff/ rhanddeiliaid, cyn ichi gael cyfweliad. Bydd eich cyfweliad yn ystyried sut y mae eich sgiliau a'ch profiad fel y maent wedi'u hamlinellu yn eich CV a'ch datganiad personol yn bodloni gofynion y rôl. Bydd ymgeiswyr yn cael o leiaf wythnos o rybudd am bwnc y cyflwyniad. Nodwch y dylid gwneud y cyflwyniadau heb rannu taflenni neu ddefnyddio dyfeisiau electronig oni bai bod hynny'n rhan o addasiad rhesymol. Fodd bynnag, mae croeso ichi ddefnyddio cardiau i brocio'r cof.

Bydd yr holl asesiadau uchod yn cael eu cynnal yn rhithwir drwy Microsoft Teams.

Nodwch y gellir gwneud addasiadau ar unrhyw gam o'r broses recriwtio ar gyfer ymgeiswyr sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, sy'n niwrowahanol neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Cysylltwch â **RecriwtioUWS@llyw.cymru** i drafod addasiadau ar gyfer unrhyw ran o'r broses.

Bydd y panel dethol yn cynnwys:

- Paul Kernaghan, un o Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil (Cadeirydd).
- Dr Andrew Goodall, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru.
- Christina Harrhy, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- Susan Acland-Hood, Ysgrifennydd Parhaol Adran Addysg Llywodraeth y DU.
- Aled Edwards, Cyfarwyddwr Anweithredol, Llywodraeth Cymru.

# 8. Bywgraffiadau



## Paul Kernaghan

Mae Paul Kernaghan CBE, QPM wedi ymddeol o yrfa helaeth yn yr heddlu, a arweiniodd at gyfnod o naw mlynedd yn Brif Gwnstabl Heddlu Hampshire (1999-2008). Ar ôl ymddeol yn 2008, gwasanaethodd drwy gydol 2009 fel Pennaeth Cenhadaeth Swyddfa Gydgysylltu'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymorth Plismona i'r Tiriogaethau Palesteinaidd. Cafodd ei benodi'n Gomisiynydd Safonau Tŷ'r Arglwyddi – y cyntaf erioed – ym mis Mehefin 2010, a bu yn y rôl tan 2016. Ef oedd yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol (2016-2021).

Cafodd Paul ei benodi'n un o Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil ar 1 Hydref 2021.



## Dr Andrew Goodall

Penodwyd Dr Andrew Goodall yn Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021 ac mae'n arwain Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru i gyflawni blaenoriaethau'r Prif Weinidog ac yn gweithredu fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru. Cyn hyn, roedd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, a hynny ers mis Mehefin 2014.

Bu Dr Goodall yn Brif Weithredwr yn y GIG yng Nghymru am gyfnod o 16 mlynedd. Mae ei swyddi blaenorol yn cynnwys Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, swydd a ddaliwyd ganddo o ddechrau'r Bwrdd Iechyd ym mis Hydref 2009 tan 2014 pan gafwyd ad-drefnu yn y GIG i greu'r model Bwrdd Iechyd Integredig.

Yn ystod ei yrfa 30 mlynedd yn y GIG, mae Dr Goodall wedi dal swyddi cynllunio a gweithredol ar draws nifer o sefydliadau'r GIG ledled y De yn ogystal â rolau cenedlaethol. Ymhlith ei feysydd diddordeb penodol mae gwella diogelwch, ansawdd a phrofiad cleifion; gweithio mewn partneriaeth a chydweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus; a darparu gwasanaethau rheng flaen drwy wella a moderneiddio gwasanaethau.

Mae gan Dr Goodall radd yn y gyfraith o Brifysgol Essex a PhD mewn Rheoli Gwasanaeth Iechyd o Ysgol Fusnes Caerdydd. Dyfarnwyd CBE i Dr Goodall yn Anrhydeddau Blwyddyn Newydd 2018 am ei wasanaethau i'r GIG a gwasanaethau cyhoeddus.



## Christina Harrhy

Christina Harrhy yw Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Ymunodd Christina â'r Tîm Rheoli Corfforaethol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn 2015 fel Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, ar ôl gweithio mewn llywodraeth leol am dros 25 o flynyddoedd, cyn iddi ddod yn Brif Weithredwr Dros Dro ym mis Ionawr 2018 a chael ei phenodi i'r swydd yn barhaol yn 2020.

Drwy feithrin a grymuso staff a chymunedau, mae Christina wedi arwain y gwaith o drawsnewid y Cyngor, gan gynnal fflam o obaith yn ystod pandemig Covid. Cafodd y cyflawniadau hyn eu cydnabod yn genedlaethol yn ddiweddar wrth i'r Cyngor gael ei gynnwys ar restr fer y gwobrau cenedlaethol canlynol: Cyngor y Flwyddyn 2021 (gwobrau LGC), Cyngor y Flwyddyn 2022 (gwobrau MJ), y Cyngor sydd wedi gwella fwyaf 2022 (gwobrau LGC). Cafodd Christina ganmoliaeth uchel wrth gyrraedd y rownd derfynol ar gyfer Prif Weithredwr y Flwyddyn MJ 2021.

Christina yw Is-gadeirydd Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE) a Phrif Weithredwr arweiniol SOLACE ar Addysg, ac mae'n cydweithio'n agos â'r Llywodraeth i ddatblygu polisïau ac arferion cenedlaethol ar draws y sector addysg a'r sector gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Hi hefyd yw'r Swyddog Canlyniadau Etholiadol Rhanbarthol.

Mae Christina yn Beiriannydd Sifil Siartredig ac yn Gymrawd o Sefydliad y Peirianwyr Sifil a Chymrawd o'r Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant.

Ar ôl cwblhau ei Gradd Meistr mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'i hastudiaethau Arweinyddiaeth ym Mhrifysgol blaenllaw Harvard yn Boston, datblygodd Christina raglen gradd Meistr yn y Gwasanaethau Cyhoeddus – rhaglen arloesol ac arobryn a oedd wedi'i seilio ar werth. I gydnabod llwyddiant y rhaglen, ynghyd â'i chyfraniad cyffredinol at arweinyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus, dyfarnwyd Gwobr Arweinydd y Dyfodol i Christina yng Ngwobrau Arwain Cymru yn 2011. Ers hynny, mae hi wedi arwain y gwaith o ddatblygu rhaglen arweinyddiaeth gydweithredol "FiNi" rhwng y Cyngor a Heddlu Gwent.

Mae Christina yn byw yn Sir Fynwy gyda'i gŵr a'i merch ac yn ei hamser hamdden mae'n mwynhau mynd â'i chi am dro a theithio.



## Susan Acland-Hood

Susan Acland-Hood yw Ysgrifennydd Parhaol yr Adran Addysg (DfE) ers mis Medi 2020.

Dechreuodd ei gyrfa yn y gwasanaeth sifil yn yr adran a elwid bryd hynny yn Adran Addysg a Chyflogaeth, ym 1999. Cyn ymgymryd â'r rôl yn DfE, Susan oedd Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Rhwng 2015 a 2016 roedd hi'n Gyfarwyddwr Menter a Thwf yn Nhrysorlys EM, yn gyfrifol am bolisïau ar dwf, ynni, yr amgylchedd, busnes, seilwaith, allforion, cystadleuaeth a marchnadoedd. Hi oedd Cyfarwyddwr y Grŵp Addysg a Chyllid yn DfE rhwng 2013 a 2015, a chyn hynny bu'n gwneud nifer o swyddi ym maes polisi addysg a chyfiawnder, gan gynnwys yn Swyddfa'r Prif Weinidog yn Rhif 10, y Swyddfa Gartref, Bwrdeistref Tower Hamlets, Llundain, a'r Uned Allgáu Cymdeithasol.



## Aled Edwards

Daeth y Canon Aled Edwards OBE yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Llywodraeth Cymru yn 2022. Mae wedi ymddeol yn ddiweddar fel Prif Swyddog Gweithredol Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru gan ddod â chyfnod o dros ugain mlynedd yn gwasanaethu fel Ysgrifennydd Cyngor Rhyng-ffydd Cymru i ben. Yn y rôl ryng-ffydd honno canolbwyntiodd ar gydlyniant cymunedol, gan gael OBE yn 2006 a Gwobr Llywodraeth Cymru i Gydnabod Cyflawniad yn 2010. Rhwng 1979 a 1999, gwasanaethodd fel offeiriad plwyf gyda'r Eglwys yng Nghymru gan weithio mewn lleoliadau dwyieithog yng Ngwynedd a Chaerdydd.

Y Gymraeg yw iaith gyntaf Aled ac ers 2021 mae wedi gweithio'n agos gyda'r Urdd wrth iddynt letya ffoaduriaid o Affganistan ac Wcráin. Mae wedi gwasanaethu fel Cadeirydd Cyngor Ffoaduriaid Cymru ac Alltudion ar Waith gan ddechrau'r broses a arweiniodd at Gymru'n dod yn Genedl Noddfa.

Cafodd ei benodi'n Gomisiynydd Cydraddoldeb Hiliol Cymru (2006-2007) a gwasanaethodd fel aelod o bwyllgor Cymru y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2007-2017). Gwasanaethodd hefyd fel aelod o Bwyllgor Gweithredol Confensiwn Cymru Gyfan ar bwerau'r Cynulliad (2008-2009) ac fel cynghorydd datganoli i Gomisiwn Bil Deddf Hawliau y DU (2011-2012).

## Cynllun Cyfweliad Hyderus o ran Anabledd

Fel rhan o'n hymrwymiad i annog pobl anabl i ymgeisio am swydd yn Llywodraeth Cymru, byddwn yn cynnig cyfweliad i bobl anabl sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas sy'n analluogi pobl sydd ag amhariadau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff (neu aelodau staff newydd posibl) berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, os ydych yn niwrowahanol neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a bod angen ichi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu os hoffech drafod sut y byddwn yn eich cefnogi os bydd eich cais yn llwyddiannus, anfonwch e-bost i **RecriwtioUWS@llyw.cymru** cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich pryderon a'ch anghenion.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi pobl anabl a datblygu eu gyrfa.

## Gweithle Gwych i Gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog

Mae'r swydd wag hon yn rhan o'r cynllun **Gwneud y Gwasanaeth Sifil yn Weithle Gwych i Gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog**.

## Cod y Gwasanaeth Sifil

Mae disgwyl i bob gwas sifil ymddwyn yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil. Gweler Atodiad B.

## Amserlen Fras

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw: **30 Mai 2023.**

Cyfarfod llunio rhestr fer: **8 Mehefin 2023**.

Profion seicometrig: o fewn 10 diwrnod i'r cyfarfod llunio rhestr fer.

Ymarfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid: **wythnos yn dechrau 19 Mehefin 2023**.

Sgwrs anffurfiol: **wythnos yn dechrau 19 neu 26 Mehefin 2023**.

Panel cyf-weld: **4 Gorffennaf 2023**.

**Bydd yr holl asesiadau uchod yn cael eu cynnal o bell drwy Microsoft Teams. Gallai'r dyddiadau uchod newid.**

# 9. Y Telerau Penodi

**Mae hon yn swydd barhaol. Mae ar gael i weithwyr parhaol Gwasanaeth Sifil y DU (a recriwtiwyd drwy gystadleuaeth deg ac agored) ar sail symud ar draws neu ddyrchafiad. Mae'r swydd ar gael hefyd i'r rhai sy'n dymuno ymuno â'r Gwasanaeth Sifil ac i'r rhai sy'n dymuno gwneud cais ar sail benthyciad, neu ar sail secondiad am hyd at bum mlynedd i ddechrau.**

## Cymhwysedd

Gofynnir nifer o gwestiynau ichi fel rhan o'ch cais. Diben y cwestiynau hyn yw pennu a ydych yn gymwys i wneud cais am y cyfle hwn. Gofynnir ichi gadarnhau manylion eich cenedligrwydd, fel rhan o'ch cymhwysedd, a chadarnhau bod hawl gyfreithiol gennych i weithio yn y Deyrnas Unedig. Mae hwn yn un o'r gofynion ar gyfer gweithio yn y Gwasanaeth Sifil. Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd fel y'u nodir yn y ffurflen gais, ni fydd eich cais yn mynd ymhellach. Os daw'n amlwg yn ddiweddarach yn y broses nad ydych yn gymwys i wneud cais, mae'n bosibl y bydd eich cais neu'ch cynnig yn cael ei dynnu'n ôl.

## Gofynion cenedligrwydd

Mae'r swydd hon yn agored yn fras i'r grwpiau canlynol:

- gwladolion y DU;
- gwladolion gwledydd y Gymanwlad sydd â hawl i weithio yn y DU;
- gwladolion Gweriniaeth Iwerddon;
- gwladolion o'r UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir â statws preswylydd sefydlog neu breswylydd cyn-sefydlog neu sy'n gwneud cais am y naill statws neu'r llall erbyn dyddiad cau **y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)**;
- gwladolion perthnasol yr UE, yr AEE, y Swistir neu Dwrci sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Sifil;
- gwladolion perthnasol yr UE, yr AEE, y Swistir neu Dwrci sydd wedi datblygu'r hawl i weithio yn y Gwasanaeth Sifil;
- rhai aelodau penodol o deuluoedd gwladolion yr UE, yr AEE, y Swistir a Thwrci.

**Rhagor o wybodaeth am ofynion cenedligrwydd**.

## Cyflog

Mae'r swydd ar lefel **Dirprwy Gyfarwyddwr** ac mae'r cyflog cychwynnol **tua £125,000**.

### I'r rheini sy'n Weision Sifil eisoes

Os ydych yn **Gyfarwyddwr Cyffredinol** presennol sy'n gwneud cais ar sail trosglwyddo ar draws i Lywodraeth Cymru, byddwch yn cadw'ch cyflog presennol.

Os ydych yn was sifil sy'n gwneud cais am ddyrchafiad bydd y cyflog cychwynnol ar ôl y dyrchafiad fel arfer yn golygu cynnydd o 10% i'r cyflog sylfaenol neu bydd ar lefel isaf y band cyflog, pa un bynnag sydd uchaf.

**Secondiad** – Os ydych yn ymgeisio am y swydd hon ar sail secondiad, byddwch yn cadw'ch telerau ac amodau presennol, gan gynnwys y cyflog (yn amodol ar gymeradwyaeth).

## Oriau gwaith

Croesewir ceisiadau gan bobl sy'n gweithio'n amser llawn, yn rhan-amser, neu fel rhan o drefniant rhannu swydd. Os byddwch yn gwneud cais fel partneriaeth rhannu swydd, disgwylir bod y trefniant hwn yn ei le pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais a dylech sicrhau ei bod yn glir yn eich ffurflenni cais eich bod yn ymgeisio fel rhan o bartneriaeth rhannu swydd. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n gweithio'n rhan-amser ac os bydd rhywun sydd am weithio'n rhan-amser yn llwyddiannus, byddwn yn gwneud addasiadau cymesur i gyfrifoldebau'r swydd.

## Lleoliad

Gallwch weithio o unrhyw un o bedair swyddfa Llywodraeth Cymru sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful, Cyffordd Llandudno ac Aberystwyth.

Mae natur y swydd yn golygu y bydd disgwyl ichi deithio'n rheolaidd i wahanol rannau o Gymru, gan weithio gyda chydweithwyr a chyfarfod â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol. Byddwch hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid y tu allan i Gymru.

## Gweithio'n Glyfar

Mae Llywodraeth Cymru yn arddel Gweithio'n Glyfar, sy'n golygu canolbwyntio ar sut rydych chi'n defnyddio eich amser, a ble a sut rydych chi'n gweithio, i ddiwallu anghenion busnes yn y ffordd fwyaf cynhyrchiol. Rydym wedi mabwysiadu gweithio hybrid fel egwyddor graidd Gweithio'n Glyfar, gan daro cydbwysedd rhwng gweithio o bell a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Rydym yn gefnogol i weithio gartref ac i deilwra patrymau i weddu i amgylchiadau unigolion. Mae'r rhan fwyaf o staff Llywodraeth Cymru yn gweithio gartref neu'n gweithio o bell yn rhywle arall ar hyn o bryd, a bydd hyn yn parhau i ryw raddau fel y gallwn leihau ein heffaith amgylcheddol a chefnogi pobl i weithio'n agosach at y cymunedau lle maent yn byw

## Costau Adleoli

Mae'n bosibl y bydd costau adleoli o hyd at £8,000 ar gael.

## Gwyliau blynyddol

### Hyd gwasanaeth

- **Hyd at 1 flwyddyn:** hawl i 25 diwrnod o wyliau blynyddol;
- **1 flwyddyn – hyd at 2 flynedd:** hawl i 26 diwrnod o wyliau blynyddol;
- **2 flynedd – hyd at 3 blynedd:** hawl i 27 diwrnod o wyliau blynyddol;
- **3 blynedd – hyd at 4 blynedd:** hawl i 28 diwrnod o wyliau blynyddol;
- **4 blynedd – hyd at 5 mlynedd:** hawl i 29 diwrnod o wyliau blynyddol;
- **5 mlynedd neu ragor:** hawl i 30 diwrnod o wyliau blynyddol.

Os bydd gweithiwr sydd eisoes yn was sifil yn cael ei ddyrchafu i'r Uwch Wasanaeth Sifil neu oddi fewn iddo, bydd ei hawl i wyliau blynyddol yn seiliedig ar hyd ei gyflogaeth barhaus yn y Gwasanaeth Sifil, fel y gwelir uchod.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei benodi yn unol â thelerau ac amodau diweddaraf yr Uwch Wasanaeth Sifil.

## Ymddeol

Nid oes oedran ymddeol gorfodol ar gyfer Uwch Weision Sifil.

## Telerau a Buddion

Cynllun Pensiwn:
**www.civilservicepensionscheme.org.uk**

- Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol, gan gynnwys cwnsela a gofal llygaid.
- Darpariaethau absenoldeb, gan gynnwys:
  - Absenoldeb gofalwyr;
  - Absenoldeb mamolaeth â thâl a heb dâl;
  - Absenoldeb tadolaeth hyblyg â thâl;
  - Absenoldeb mabwysiadu hyblyg â thâl;
  - Absenoldeb rhieni wedi'i rannu.

## Gwrthdaro Buddiannau

Dylai ymgeiswyr nodi bod yn rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau a allai arwain at gwestiynau am y ffordd y maent yn ymdrin â busnes Llywodraeth Cymru.

Rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau busnes perthnasol, cyfranddaliadau, swyddi o awdurdod, taliadau cadw, trefniadau ymgynghori neu gysylltiadau eraill â chyrff masnachol, cyhoeddus neu wirfoddol, o'u rhan eu hunain ac o ran eu priod neu eu partner.

Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus roi'r gorau i unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro, ac mae'n bosibl y caiff eu buddiannau busnes ac ariannol eraill eu cyhoeddi.

## Y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol

Daw'r swydd hon o dan y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol.

## Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal. Ein nod yw sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu hymgorffori yn ein harferion gwaith o ddydd i ddydd gyda'n holl gwsmeriaid, cydweithwyr a phartneriaid. Mae gan y Bwrdd Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac mae'n cael diweddariadau rheolaidd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydym wedi ymrwymo i recriwtio menywod, pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a phobl anabl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn yr Uwch Wasanaeth Sifil.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth, cael gwared ar rwystrau a chefnogi ein holl staff i gyflawni eu potensial. Rydym yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall ac yn sefydliad Hyderus o ran Anabledd ar Lefel 3 (Arweinydd). Mae pum Rhwydwaith Staff sy'n cael eu noddi gan y Bwrdd yn allweddol er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ac er mwyn rhoi cefnogaeth gan gymheiriaid, sef Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd

(DAAS); Rhwydwaith y Staff Ethnig Lleiafrifol (MESN); Materion y Meddwl (iechyd meddwl a llesiant); PRISM (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol, Drawsryweddol, Ryngrywiol +) a Menywod Ynghyd.

## Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil

Mae prosesau recriwtio Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar yr egwyddor o benodi yn ôl teilyngdod, ar sail cystadleuaeth deg ac agored, fel y nodir yn **Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil**.

Os ydych yn teimlo nad yw eich cais wedi cael ei drin yn unol â'r Egwyddorion Recriwtio ac os hoffech wneud cwyn, dylech gysylltu â **RecriwtioUWS@llyw.cymru** yn y lle cyntaf.

Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb a gewch oddi wrth Lywodraeth Cymru, gallwch gysylltu â Swyddfa Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

## Lefel diogelwch

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd fynd drwy'r broses fetio hyd at lefel Fetio Uwch (DV). Sylwer bod angen bod wedi preswylio yn y DU am 10 mlynedd i gael cliriad DV.

# Atodiadau

Atodiad A: **DATGANIAD ARWEINYDDIAETH Y GWASANAETH SIFIL**

Atodiad B: **COD Y GWASANAETH SIFIL**